



# **Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb**

## **2016-2020**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg  
This document is available in English**

**I gael copi o'r ddogfen yma mewn unrhyw fformat arall e.e. Breil, Print Bras  
cysylltwch â /**

**To receive a copy of this document in any other format e.g. Braille, Large Print  
etc. contact**

Swyddog Amrywiaeth a Pholisi Corfforaethol  
[info@newport.gov.uk](mailto:info@newport.gov.uk)  
Ffôn 01633 656656  
[www.newport.gov.uk](http://www.newport.gov.uk)

## Tabl Cynnwys

	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>3</b>
<b>1</b>	<b>Deddfwriaeth cydraddoldeb a'r Gymraeg ac amcanion cydraddoldeb</b> .....	<b>3</b>
1.1	Deddf Cydraddoldeb 2010 .....	3
1.2	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg .....	4
1.3	Deddf Hawliau Dynol 1998 (sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol 1950 yng nghyfraith Prydain) .....	4
1.4	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 .....	4
<b>2</b>	<b>Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd</b> .....	<b>5</b>
<b>3</b>	<b>Cwsmeriaid</b> .....	<b>6</b>
3.1	Egwyddor gwasanaethau hygrych .....	6
3.2	Sut rydym yn cynnig gwasanaethau .....	6
3.3	Gweithredu'n Gadarnhaol.....	7
3.4	Cyfathrebu .....	7
3.5	Prynu nwyddau a gwasanaethau .....	7
3.6	Grantiau a Thrydydd Partïon .....	7
3.7	Partneriaethau .....	8
3.8	Ymgysylltu .....	8
3.9	Cwynion a chanmoliaeth.....	8
<b>4</b>	<b>Gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth</b> .....	<b>9</b>
4.1	Gwahaniaethu .....	9
4.6	Aflonyddu.....	9
4.7	Erledigaeth .....	10
4.8	Tabl Gwahaniaethu.....	10
4.9	Trosedd Casineb a Digwyddiadau Casineb .....	11
<b>5</b>	<b>Sut rydym yn rhoi'r cynllun ar waith</b> .....	<b>11</b>
5.1	Cyfrifoldeb Strategol .....	11
5.2	Perfformiad .....	11
5.3	Penderfyniadau.....	12
5.4	Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb.....	12
5.5	Monitro sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi .....	12
5.6	Cyhoeddi gwybodaeth .....	13
<b>6</b>	<b>Chi – y gweithiwr cyflogedig</b> .....	<b>13</b>
6.1	Cynllun y Bobl.....	13
6.2	Cyflogaeth .....	13
6.3	Ceisiadau mewn perthynas â nodwedd warchoddedig.....	13
6.4	Gweithredu'n gadarnhaol.....	13
6.5	Monitro a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth.....	14
6.6	Tâl a chydnabyddiaeth.....	14
6.7	Yn gadarn o blaid pobl anabl .....	14
6.8	Ymgysylltu â gweithwyr cyflogedig .....	15
6.9	Datblygiad Sefydliadol a hyfforddiant.....	15
<b>7</b>	<b>Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2016-20</b>	<b>16</b>

## Cyflwyniad

Awdurdod unedol a ffurfiwyd ym 1996 yw Cyngor Dinas Casnewydd. Dyma'r 8fed cyngor mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu pob un o'r prif wasanaethau fel addysg, cyllid, gwasanaethau cyhoeddus, cynllunio a phriffyrdd. Mae tua 147,000 o bobl yn byw yng Nghasnewydd.

Mae'r cynllun canlynol yn amlinellu beth rydym yn ymrwymo i'w wneud mewn perthynas â Chydraddoldeb a'r Gymraeg ynghyd ag amcanion cydraddoldeb cysylltiedig. Mae'r camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu. Cafodd y cynllun ei gymeradwyo gan Gyngor y Ddinas ar 03/03/16. Mae'n adeiladu ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 a Chynllun yr Iaith Gymraeg.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymadau'r cyngor o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg 2015
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - fframwaith ar gyfer holl waith y cyngor.

Mae'r amcanion cydraddoldeb yn cyd-fynd yn agos â'r rhai gafodd eu dewis a'u gweithredu dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae'r camau gweithredu yn adlewyrchu'r cynnydd rydym ni wedi ei wneud a'r sefyllfa bresennol. Rydym wedi ystyried heriau drafft y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2015 wrth ddewis ein hamcanion.

## 1 Deddfwriaeth cydraddoldeb a'r Gymraeg ac amcanion cydraddoldeb

Mae'r ddeddfwriaeth isod yn effeithio ar bobl, aelodau'r cyhoedd, partneriaid a staff, a'r gwasanaethau i gyd, yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth neu gan eraill ar ein rhan.

### 1.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r naw nodwedd warchoddedig yn Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys pawb:

Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn pennu Dyletswyddau'r Sector Cyhoeddus sy'n berthnasol i holl swyddogaethau'r Cyngor. Mae dwy ddyletswydd gadarnhaol ac un ddyletswydd negyddol:-

- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol da
- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth

Mae dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 fel y'u gwnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 1.2 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

- Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru
- Mae gan siaradwyr Cymraeg hawliau iaith yng Nghymru i gael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg gan gyrrff cyhoeddus
- Ni ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Casnewydd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gydymffurfio â nifer o safonau ar draws themâu gwahanol.

## 1.3 Deddf Hawliau Dynol 1998 (sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol 1950 yng nghyfraith Prydain)

Mae cyswllt anorfod rhwng hawliau dynol a chydaddoldeb. Mae cydraddoldeb yn cael ei drin fel un o'r hawliau dynol sylfaenol, o'r egwyddor o barch cydradd at urddas cynhenid pob unigolyn.

Mae Erthygl 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwahardd gwahaniaethu ar unrhyw sail fel rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

Mae'r geiriau 'statws arall' yn cwmpasu, ymhlith pethau eraill, cyfeiriadedd rhywiol, bod yn blentyn siawns, statws priodasol, aelodaeth o undeb llafur, trawsrywioldeb, anabled, gofalwyr a charcharu.

Rhaid defnyddio Erthygl 14 yng nghyswllt cwyn sy'n ymwneud ag un o erthyglau eraill y Confensiwn, e.e. Erthygl 6: yr hawl i gael treial teg, neu Erthygl 8: yr hawl i fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

Mewn rhai achosion mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi mwy o hawliau i bobl na deddfwriaeth gydraddoldeb arall oherwydd mae'n barnu triniaeth yn erbyn safon benodol ac nid yw'n dibynnu ar gymharu triniaeth un grŵp o bobl yn erbyn un arall.

## 1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae'r Ddeddf yn gweithredu **egwyddor datblygu cynaliadwy** sy'n golygu 'bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

Bydd y cyngor yn cytuno ar Amcanion Llesiant hollgynhwysol yn 2017 yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r **7 nod llesiant**. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn dylanwadu ar yr amcanion hyn a, thrwy hynny, Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Ebrill 2018.)

## 2 Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd

Datblygwyd y **9 amcan cydraddoldeb hyn** i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

<b>Nodau llesiant ac Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd</b>	
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	
<b>1</b>	<b>Amrywiaeth yn y gweithle – Ymgysylltu â Gweithwyr Cyflogedig</b> Bydd gweithlu'r Cyngor yn gynrychiadol o'r boblogaeth a wasanaethwn a bydd y gweithlu'n cael cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt
<b>2</b>	<b>Ymgysylltu a chyfranogiad democrataidd</b> Byddwn yn cynnwys pobl wrth ddatblygu gwasanaethau'r Cyngor sy'n effeithio arnynt a bydd penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar pobl
<b>3</b>	<b>Gwella Mynediad at Wasanaethau</b> Gall pobl gael at wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt o ran mynediad corfforol ac o ran cyfathrebu ac ati
<b>4</b>	<b>Trechu Tlodi</b> Byddwn yn mynd ati i leihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymysg rhai o'n pobl a chymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn dioddef tlodi
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	
<b>5</b>	<b>Cymunedau Cydlynus a mynd i'r afael â throsedd casineb</b> Mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o gymdeithas Casnewydd ac yn byw eu bywydau heb gamdriniaeth nac aflonyddu.
<b>6</b>	<b>Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</b> Mae pobl sy'n dioddef neu'n dyst i gam-drin domestig yn cael cymorth gan y Cyngor a'i bartneriaid yn eu sefyllfa gyfredol, a thrwy unrhyw newidiadau maent am eu gwneud.
<b>7</b>	<b>Digartrefedd</b> Darparu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n grymuso pobl ddigartref a phobl ar gyron y gymdeithas heb eu beirniadu fel y gallant gyflawni eu potensial.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	
<b>8</b>	<b>Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg</b> Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd

<b>9</b>	<p><b>Cydymffurfiaeth Gorfforaethol</b>  Arweinyddiaeth strategol, trefniadau llywodraethu, sicrhau safonau uchel a chyson ym mhob rhan o'r cyngor a'i holl gyfrifoldebau.</p>
----------	--

Mae rhai o'r themâu'n canolbwyntio ar y cyngor yn fewnol – sut mae'r cyngor yn gwella'i arferion ac yn sicrhau llywodraethiant da o dan y thema **Cydymffurfiaeth Gorfforaethol**. Mae amcanion eraill yn rhai allanol – **Ymgysylltu a Cham-drin Domestig**, lle rydym yn elwa ar weithio mewn partneriaeth drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un.

Bu'r amcanion ar eu newydd wedd yn destun ymgynghoriad a thrafodaeth helaeth gyda'r rhanddeiliaid mewnol ac allanol amrywiol rhwng Tachwedd 2015 ac Ionawr 2016. Yna cyflwynwyd y ddogfen ddrafft i'r Cabinet a'r Cyngor llawn ddechrau 2016.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgynghori ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid drwy gydol y 4 blynedd o oes y ddogfen hon, a bydd modd gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn dilyn y gwaith adolygu a chasglu tystiolaeth a wneir ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.

### **3 Cwsmeriaid**

#### **3.1 Egwyddor gwasanaethau hygyrch**

Mae ein gwasanaethau ar agor i bawb. Ni fyddwn yn gwahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau, a bydd pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.

Byddwn yn hyrwyddo wyneb cyhoeddus dwyieithog ac yn croesawu pobl yn ddwyieithog fel bod pobl yn gwybod bod gwasanaethau Cymraeg ar gael ac er mwyn eu hannog i'w defnyddio.

Mae rhai o wasanaethau'r Cyngor yn targedu pobl sydd angen mwy o gymorth neu gymorth gwahanol, er enghraifft, plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae modd addasu gwasanaethau eraill fel eu bod yn diwallu anghenion diwylliannol neu gymdeithasol pobl o fewn y ddarpariaeth brif ffrwd.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ni all y Cyngor wrthod darparu gwasanaeth oni bai ei fod yn gallu profi bod y gwasanaeth yn 'afresymol' neu 'anymarferol'. Fodd bynnag, dim ond i amgylchiadau penodol ac annisgwyl y mae hyn yn gymwys. Ni cheir cyfeirio at gyfyngiadau ariannol oni bai bod hynny mewn perthynas â chyllideb yr awdurdod cyfan. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 1-87**

#### **3.2 Sut rydym yn cynnig gwasanaethau**

Byddwn yn sicrhau bod pobl sydd angen ein gwasanaethau:

- Yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael
- Yn gwybod sut i wneud cais amdanynt
- Yn gallu cael atynt yn hawdd, gyda chymorth os oes angen
- Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfieithu a dehongli yn ieithoedd y gymuned lle byddai diffyg gwasanaethau o'r fath yn rhoi rhywun dan anfantais – i ddiwallu angen, nid dewis

- Bydd y Cyngor hefyd yn darparu technoleg ac addasiadau lle bo'n bosibl ac yn ymarferol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael at wasanaethau.
- Mae'r effaith ar y cwsmer yn hynod bwysig wrth benderfynu beth sy'n rhesymol. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 1-87**

### 3.3 Gweithredu'n Gadarnhaol

Gall y Cyngor gymryd camau gweithredu cadarnhaol cymesur i fynd i'r afael â'r anfanteision sy'n wynebu pobl â nodwedd warchoddedig, neu lle byddai hynny'n galluogi neu'n annog cyfranogiad grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae sesiynau nofio i fenywod yn unig yn enghraifft o hyn. Byddwn yn casglu tystiolaeth cyn gweithredu'n gadarnhaol.

### 3.4 Cyfathrebu

Bydd y Cyngor yn ceisio cael gwasanaethau'n iawn i bobl ar y cynnig cyntaf. Byddwn yn cyfathrebu â phobl yn y Gymraeg a'r Saesneg oni bai ein bod ni'n gwybod pa iaith/ieithoedd sydd well ganddynt. Ni allwn dybio ein bod ni'n gwybod beth mae pobl ei angen felly byddwn ni'n:

- Darparu gwybodaeth mewn sawl fformat yn cynnwys print bras, Cymraeg Clir a Plain English, Braille, ac ieithoedd y gymuned ac ati lle mae angen
- Dylunio cynhyrchion hawdd eu darllen o ran iaith a diwyg
- Defnyddio delweddau sy'n adlewyrchu bywydau pobl Casnewydd
- Cynnwys manylion cyswllt llawn fel y gall pobl gysylltu â ni'n hawdd
- Holi pobl pa ddull cyfathrebu sydd well ganddynt, a chofnodi a defnyddio'r wybodaeth honno lle bo'n bosibl
- Hyfforddi a chynorthwyo gweithwyr cyflogedig ynghylch sut mae paratoi gwybodaeth i'r cyhoedd, negeseuon electronig a gwasanaethau cyfieithu a dehongli hygyrch

Mae'r Cyngor yn cydnabod iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith ynddi'i hun. Bydd y Cyngor yn hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth pobl fyddar. Byddwn yn cynyddu'n defnyddio o ddehongli a recordio BSL ac yn hyfforddi staff perthnasol ar gydraddoldeb i bobl fyddar a sgiliau BSL. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 1-87**

### 3.5 Prynw nwyddau a gwasanaethau

Wrth werthuso tendrau a dyfarnu contractau, bydd y Cyngor yn ystyried agwedd darpar gcontractwr at gydraddoldeb yn ei arferion cyflogi ac wrth ddarparu gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei fonitro a'i reoli yn ystod oes pob contract **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 76-86**

### 3.6 Grantiau a Thrydydd Partïon

Bydd gofyn i bawb sy'n gwneud cais am grant neu nawdd ddangos sut maent yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu rhwystrau ar gyfer pobl yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd gofyn iddynt hefyd hyrwyddo'r defnydd i'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn ystyried anghenion pob unigolyn a chymuned, yn cynnwys pobl anabl, wrth ddarparu cymorth i grwpiau'r trydydd sector. Dim ond y grwpiau hynny sydd â datganiad cydraddoldeb dilys fydd yn cael cynnig cymorth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un wedi comisiynu Cymdeithas Sefydliadau

Gwirfoddol Gwent (GAVO) i ddatblygu Dyfarniad Sicrhau Ansawdd ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector i ddangos sut maent wedi bodloni meini prawf penodol. Mae ennill y Dyfarniad yn brawf bod y polisïau a'r rheolaethau cywir ar waith yn y sefydliadau hynny. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 71-75**

### 3.7 Partneriaethau

Pan mae'r Cyngor yn aelod o bartneriaeth bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ei holl waith, ac yn cynorthwyo partneriaid i wneud hynny hefyd.

Mae **Cydweithio** a **Cynnwys** yn ddau o Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn ein helpu i ddylunio a darparu gwasanaethau gyda ffocws ar y cwsmer a'r gymuned.

### 3.8 Ymgysylltu

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â rhanddeiliaid – defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr cyflogedig, ymarferwyr a'u cynrychiolwyr – ac yn eu cynnwys wrth newid neu ddatblygu gwasanaethau. Mae Aelodau'r Cyngor yn cyfrannu drwy'r system wleidyddol.

Mae ystyried safbwyntiau pobl yn ôl nodweddion gwarchoddedig a ffactorau eraill fel tlodi, ardal leol, sgiliau ac ati yn rhoi darlun gwell i ni o'r boblogaeth gyfan a'i hanghenion. Byddwn yn ymgynghori hefyd ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â phobl ynghylch gwasanaethau sy'n effeithio'n benodol arnynt h.y. pobl anabl ynghylch addasiadau tai i bobl anabl, yn ogystal ag ynghylch gwasanaethau cyffredinol.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â phartneriaid yng Nghasnewydd i leihau'r baich ymgynghori ar bobl Casnewydd, a gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth a roddir. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 91-93 a 95-97**

### 3.9 Cwynion a chanmoliaeth

Mae'r Cyngor yn croesawu cwynion a chanmoliaeth ac mae'n defnyddio sylwadau i geisio unioni pethau, dysgu o gamgymeriadau a gwella gwasanaethau. Dyma'r polisi

<http://www.newport.gov.uk/documents/Council-and-Democracy/Comments-Compliments-and-Complaints-Policy-V1-1-CYM.pdf>

Mae'r Ffurflen Gwyno neu Ganmol ar gael yn electronig, isod, neu ffoniwch ganolfan gyswilt y Cyngor ar 01633 656656.

[https://services.newport.gov.uk/forms/form/441/cy/cwyno\\_neu\\_ganmol](https://services.newport.gov.uk/forms/form/441/cy/cwyno_neu_ganmol)

Byddwn yn monitro'r cwynion i asesu a oes unrhyw faterion cydraddoldeb yn dod i'r amlwg. Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain wrth iddynt godi ac yn monitro cwynion yn flynyddol. Rydym yn cadw copi o bob cwyn am wasanaethau Cymraeg, fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 147-149**



## 4 Gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth

### 4.1 Gwahaniaethu

Bydd y Cyngor yn gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau yn cael eu llunio a'u gweithredu fel nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl. Bydd ein polisïau yn adlewyrchu hyn.

Mae pedwar math o wahaniaethu anghyfreithlon yn cael eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac maent yn berthnasol wrth ddarparu gwasanaethau a chyflogi pobl:

- Gwahaniaethu uniongyrchol
- Gwahaniaethu uniongyrchol cyfunol
- Gwahaniaethu anuniongyrchol
- Gwahaniaethu ar sail anabledd

**4.2 Gwahaniaethu uniongyrchol** – pan fydd rhywun yn trin rhywun arall yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig. Er enghraifft; peidio â chyflogi rhywun neu ddarparu gwasanaeth i rywun oherwydd ei ryw.

**4.3 Gwahaniaethu uniongyrchol cyfunol** – pan fydd rhywun yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd cyfuniad o nodweddion gwarchoddedig e.e. rhyw ac oedran

Mae'r diffiniad o wahaniaethu uniongyrchol (gweler 4.2 a 4.3) wedi cael ei ymestyn i adlewyrchu cyfraith achos. Mae bellach yn cynnwys **gwahaniaethu ar sail cysylltiad** ag unigolyn y byddai gwahaniaethu yn ei erbyn yn anghyfreithlon e.e. gwahaniaethu yn erbyn rhiant unigolyn anabl. Mae gwahaniaethu uniongyrchol hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys **gwahaniaethu ar sail canfyddiad** o nodweddion gwarchoddedig e.e. gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y gred ei fod yn Fwslim, hyd yn oed os nad yw'n Fwslim.

**4.4 Gwahaniaethu anuniongyrchol** - pam mae polisi neu arfer yn ymddangos yn niwtral ond bod yr effaith yn rhoi grŵp o bobl dan anfantais sylweddol - er enghraifft, polisi iwnifform anhyblyg nad yw'n darparu ar gyfer anghenion pobl ar sail crefydd neu anabledd

**4.5 Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd** – pan mae rhywun yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i nam e.e. disgybl anabl yn cael ei ddisgyblu am dorri rheol nad oedd yn gwybod amdani am nad oedd yn deall yr arwydd.

### 4.6 Aflonyddu

Bydd y Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i amddiffyn pobl. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth, yn hyfforddi rheolwyr, yn annog gweithwyr cyflogedig i roi gwybod am achosion o aflonyddu ac yn ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi.

Aflonyddu yw ymddygiad digroeso sydd â'r diben neu'r effaith o amharu ar urddas rhywun neu greu amgylchedd bygythiol, anghyfeillgar, diraddiol, bychanol neu sarhaus ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i ddiogelu pobl yn yr amgylchedd gwaith rhag cael eu aflonyddu arnynt gan bobl. Gallem fod ar fai os yw rhywun yn dweud ei fod yn dioddef aflonyddu ac nad ydym wedi cymryd camau rhesymol i atal unrhyw aflonyddu pellach. Mae hyn yn parhau i fod yn wir hyd yn oed os yw rhywun yn dioddef aflonyddu gan bobl wahanol am resymau gwahanol ar adegau gwahanol.

Mae aflonyddu bellach yn cynnwys **aflonyddu ar sail cysylltiad** h.y. ffrind person anabl, **neu ganfyddiad** h.y. camgymryd bod rhywun yn Fwslim ac ati.

Mae aflonyddu'n berthnasol i bob nodwedd warchoddedig ac eithrio beichiogrwydd a mamolaeth (lle gallai unrhyw driniaeth anffafriol gael ei ystyried yn wahaniaethu) a phriodas a phartneriaeth sifil.

#### 4.7 Erledigaeth

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu pobl rhag cael eu herlid ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig.

Erledigaeth yw pan fydd rhywun yn rhoi rhywun arall o dan anfantais oherwydd ei fod wedi cyflawni, neu y credir y bydd yn cyflawni, 'gweithred warchoddedig'. Mae 'gweithred warchoddedig' yn cynnwys dwyn achos o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhoi gwybodaeth neu dystiolaeth, neu wneud honiad mewn perthynas â'r Ddeddf, cyn belled â'i fod wedi gwneud hynny yn ddidwyll – hynny yw, yn onest.

#### 4.8 Tabl Gwahaniaethu

Isod mae tabl sy'n dangos beth sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o ran gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Mae Hawliau Dynol yn berthnasol i bawb mewn perthynas â'r Cyngor.

	Gwahaniaethu			Aflonyddu (Gweithwyr cyflogedig yn unig)	Erledigaeth (Gweithwyr cyflogedig yn unig)	Hawliau Dynol
	Uniongyr- chol	Deuol	Anuniongyr- chol			
Oedran	☺	☺	☺	☺	☺	☺
Anabledd	☺	☺	☺	☺	☺	☺
Ailbennu rhywedd	☺	☺	☺	☺	☺	☺
Priodas a Phartneriaeth Sifil	☺	■	☺	☺	☺	☺
Mamolaeth a Beichiogrwydd	☺	■	■	■	☺	☺
Hil	☺	☺	☺	☺	☺	☺
Crefydd neu gred	☺	☺	☺	☺	☺	☺
Rhyw	☺	☺	☺	☺	☺	☺
Cyfeiriadedd rhywiol	☺	☺	☺	☺	☺	☺

☺ Gwahaniaethu sydd wedi'i gynnwys / ■ Gwahaniaethu sydd heb ei gynnwys dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 / Y Ddeddf Hawliau Dynol

## **4.9 Trosedd Casineb a Digwyddiadau Casineb**

Nod Cyngor Dinas Casnewydd, mewn partneriaeth â Casnewydd yn Un, yw hyrwyddo cysylltiadau a chydlyniant cymunedol da a mynd i'r afael â throedd casineb a digwyddiadau sydd wedi'u cymell gan ragfarn a chasineb.

Trosedd casineb yw trosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw arall yn barnu ei bod wedi cael ei chymell gan gasineb neu ragfarn ar sail anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd gwirioneddol neu ganfyddiedig rhywun. Digwyddiad casineb yw un sy'n seiliedig ar ragfarn yn yr un modd ond nad yw'n ymwneud â throedd.

Mae'r Uned Cam-drin Domestig yn cynnig gwasanaeth aml-asiantaeth cyfrinachol i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.

## **5 Sut rydym yn rhoi'r cynllun ar waith**

### **5.1 Cyfrifoldeb Strategol**

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Pobl yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cydraddoldeb a'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cyngor. Pennaeth Pobl a Newid Busnes yw'r Uwch Swyddog Arweiniol. Y Tîm Partneriaeth a Pholisi sy'n gyfrifol am reoli a chydgysylltu'r polisi o ddydd i ddydd.

Caiff y Grŵp Cydraddoldebau Strategol ei gadeirio gan Aelod y Cabinet dros Bobl a Newid Busnes. Mae Aelod y Cabinet dros Sgiliau a Gwaith, yr Hyrwyddwr Cydraddoldebau a swyddogion sy'n cynrychioli pob amcan cydraddoldeb yn mynychu. Mae gan rai o'r themâu grwpiau gweithredu. Mae rhai o'r grwpiau hyn eisoes yn ateb i gyrff eraill – i Bartneriaeth Casnewydd yn Un, Llywodraeth Cymru ac ati. Mae gan Hyrwyddwr Trechu Tlodi, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog, Hyrwyddwr Pobl Hŷn a Hyrwyddwr Cydraddoldebau'r Cyngor wahoddiad agored i fynychu ac maent yn adrodd i'r grŵp unwaith y flwyddyn.

### **5.2 Perfformiad**

Gan adeiladu ar Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, bydd y Bil Diwygio Llywodraeth Leol arfaethedig yn llywio'r agenda perfformiad dros y blynyddoedd nesaf, gyda'n blaenoriaethau'n canolbwyntio ar fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O dan y ddyletswydd i 'sicrhau gwelliant parhaus' mae gofyniad i ystyried: 'tegwch yn enwedig o ran lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad i wasanaethau neu fanteisio'n llawn arnynt, neu wella llesiant grwpiau dan anfantais.'

I wneud hyn rydym yn ystyried ein dyletswyddau cydraddoldeb a'r effaith ar bawb. Rydym yn gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drwy Grŵp Cydraddoldeb Strategol a thrwy'r Cynlluniau Maes Gwasanaeth sy'n rhoi sylw penodol i gydraddoldebau a'r Gymraeg. Adroddir ar y Cynlluniau Maes Gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn.

Rydym yn adrodd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb unwaith y flwyddyn i'r Cabinet. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

Cyrff rheoleiddio cydraddoldebau a'r Gymraeg yw:  
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)  
Comisiynydd y Gymraeg

### **5.3 Penderfyniadau**

Mae'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn ystyried Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg wrth edrych ar opsiynau a gwneud penderfyniadau ynghylch polisiau a gwasanaethau. Un ffordd o wneud hyn yw cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb – asesiad risg cydraddoldebau.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg 2011, dylid ymgynghori ar bob polisi, arfer a gweithdrefn ac asesu eu heffaith (gweler Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb isod). Mae crynodeb a chasgliad wedi'u cynnwys yn nhempeld adroddiad y Cyngor.

### **5.4 Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn asesiad risg cydraddoldebau sy'n cofnodi'r manteision a'r risgiau i wahanol bobl - yn ôl nodwedd warchoddedig ac ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Mae'n cyflwyno tystiolaeth ymchwil, a gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gweler adran 3.8. Os ydym yn asesu y gallai'r penderfyniad effeithio ar bobl mewn ffordd wahanol, byddwn yn mynd ati i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Bydd manylion hyn yn adroddiad perthnasol y cyngor.

Bydd adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb yn cynnwys:

- Diben y polisi neu'r arfer
- Crynodeb o'r camau a gymerwyd yn yr asesiad
- Crynodeb o'r wybodaeth a gafodd ei hystyried yn yr asesiad
- Canlyniad yr asesiad
- Unrhyw benderfyniad a wnaed gan yr awdurdod mewn perthynas â'r canlyniadau.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi canlyniadau'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein gwefan.

<http://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/Equalities-the-Welsh-language/Equality-Impact-Assessments/Fairness--equality-impact-assessments.aspx>

#### **Safonau'r Gymraeg Perthnasol**

#### **88-90 Asesu Effaith, 91-93 Ymgynghori a 95-97 Ymgysylltu**

### **5.5 Monitro sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi**

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am ddefnydd cwsmeriaid o'i wasanaethau a'u barn amdanynt. Bydd monitro sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi ac effaith hynny yn rhan o waith rheoli perfformiad y Cyngor. **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 157**

## **5.6 Cyhoeddi gwybodaeth**

Bydd y Cyngor yn nodi, cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth am gydraddoldebau sy'n berthnasol i sut rydym yn cyflawni'r dyletswyddau penodol. Mae'r wybodaeth berthnasol ar gyfer cyflogaeth wedi'i nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 y Cynulliad ac mae crynodeb yn adran 7.5.

O ran cyflenwi gwasanaethau byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:

- Perfformiad o ran cyflawni'r dyletswyddau penodol a'r amcanion cydraddoldeb
- Mynediad at wasanaethau
- Bodlonrwydd â gwasanaethau, a
- Chwynion.

## **Safonau'r Gymraeg Perthnasol 157, 158 and 159**

## **6 Chi – y gweithiwr cyflogedig**

Nodwyd y gwerthoedd ar gyfer y Cyngor fel cyflogwr gan weithwyr cyflogedig yn 2010. Gwerthoedd yr awdurdod yw bod yn Atebol, Agored ac Unedig

### **6.1 Cynllun y Bobl**

Mae Cynllun y Bobl yn dweud sut byddwn ni'n ysgogi, datblygu a chynnwys gweithwyr cyflogedig mewn modd teg a chynhwysol i wneud y Cyngor yn weithle llwyddiannus.

### **6.2 Cyflogaeth**

Nod y Cyngor yw bod yn gyflogwr teg a hyrwyddo diwylliant gwaith cyfeillgar. Ni all y Cyngor lwyddo heb bobl ymroddgar, frwdfrydig, medrus a grymus. Byddwn yn creu amgylchedd gwaith iach, diogel a chefnogol lle mae pobl yn cael eu parchu am bwy ydynt a lle gall gweithwyr cyflogedig roi o'u gorau.

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl wrth ddethol a chyflogi pobl, yn eu telerau cyflogaeth, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiadau, trosglwyddiadau, ymddeol, diswyddo, a buddion eraill ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig. Mae adran flaenorol ar wahaniaethu yn yr adran 'cwsmeriaid' yn berthnasol i weithwyr cyflogedig.

### **6.3 Ceisiadau mewn perthynas â nodwedd warchoddedig**

Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni ceisiadau gweithwyr cyflogedig sy'n ymwneud â nodwedd warchoddedig, yn cynnwys gwisg, bwyd, gwyliau, amseroedd gweddïo, patrymau gwaith, absenoldeb, cymorth, addasiadau ffisegol ac ati er mwyn peidio â gwahaniaethu.

### **6.4 Gweithredu'n gadarnhaol**

Gellir defnyddio mesurau gweithredu cadarnhaol i wrthbwysio effeithiau gwahaniaethu'r gorffennol fel y gall pobl yn y grwpiau dan sylw gyflawni eu potensial. Byddwn yn dangos bod anfantais neu gynrychiolaeth annigonol o'r fath yn bodoli cyn gweithredu.

Mae gan y Cyngor bolisi ar aflonyddu ac erledigaeth. Mae'n bwysig bod pobl yn gallu gweithio mewn amgylchedd heb unrhyw aflonyddu. Mae aflonyddu yn y gweithle yn gwbl afresymol ac yn anghyfreithlon.

### **6.5 Monitro a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sefydliad mawr sydd â sawl gweithle. Mae'n bwysig ein bod ni'n adnabod y gweithlu, pwy yw ein gweithwyr cyflogedig, beth yw eu hanghenion ac ati.

Byddwn yn monitro recriwtio, datblygiad gweithwyr cyflogedig a chyfraddau cadw yn cynnwys:-

- a) Nifer a gyflogir (yn ôl nodwedd warchoddedig)
- b) Nifer a gyflogir yn ôl swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrymau gweithio (yn ôl rhyw)
- c) Nifer y gweithwyr cyflogedig o fewn cyfnod yr adroddiad (yn ôl pob nodwedd warchoddedig) sydd wedi:
  - Gwneud cais am swydd
  - Newid swydd ac wedi gwneud cais i newid swydd, wedi gwneud cais am hyfforddiant, wedi llwyddo i gael hyfforddiant, ac wedi cwblhau eu hyfforddiant
  - Bod yn rhan o weithdrefnau cwyno
  - Cael eu disgyblu
  - Rhoi'r gorau i weithio i'r awdurdod

Byddwn yn monitro a chyhoeddi data fel sy'n ofynnol uchod yn unol â'r hyn sydd ar gael ar system gyflogres y Cyngor. Byddwn yn cyhoeddi data mewn ffordd sy'n golygu nad oes modd adnabod unigolion. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fonitro i'r cyhoedd ar dudalennau gwe'r Cyngor ar gydraddoldebau.

<http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Equalities-the-Welsh-language/Equalities.aspx>

Ni fydd ffigurau cyflogaeth yn rhoi'r rheswm am unrhyw wahaniaethau i ni. Er mwyn canfod achosion unrhyw wahaniaethau a chymau i fynd i'r afael â nhw byddwn yn holi gweithwyr cyflogedig cyfredol a darpar weithwyr cyflogedig am eu safbwyntiau a'u profiadau.

### **6.6 Tâl a chydabyddiaeth**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithredu strwythur cyflog a graddau modern ac agored a fframwaith buddion hyblyg, ac mae wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o gyflog a graddau o dan y prosiect Holl Fuddion.

### **6.7 Yn gadarn o blaid pobl anabl**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r ddau dic – y fenter 'Yn gadarn o blaid pobl anabl' sy'n sicrhau cyfwelliad ar gyfer pobl anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol y swydd. Gallwn newid amgylchedd gwaith a rôl gweithiwr cyflogedig os yw'n anabl. Mae rheolwyr yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd gwaith addas sy'n galluogi gweithwyr cyflogedig i wneud eu gwaith. Mae cymorth ar gael i weithwyr cyflogedig a rheolwyr gan therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr gwaith a chynghorwyr mynediad at waith.

## **6.8 Ymgysylltu â gweithwyr cyflogedig**

Mae ymgysylltu â gweithwyr cyflogedig yn un o bum thema Cynllun y Bobl y Cyngor ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Mae ymgysylltu'n hanfodol er mwyn datblygu diwylliant a strwythurau lle mae syniadau newydd ac arloesol ar gyfer gwaith yn gallu cael eu rhoi ar waith ledled yr awdurdod.

## **6.9 Datblygiad Sefydliadol a hyfforddiant**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwmo i Strategaeth Datblygiad Sefydliadol Gorfforaethol, gan helpu arweinwyr, rheolwyr a gweithwyr cyflogedig i ddeall cydraddoldeb wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus gwell.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi'n deg ac yn gyfartal mewn datblygiad gweithwyr cyflogedig ac Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cynnig y cyrsiau hyfforddi canlynol ar gydraddoldebau a'r Gymraeg. Rydym yn adolygu'r rhestr yn barhaus:

Ymwybyddiaeth o Gydraddolebau  
Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a  
Chydraddoldeb  
Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a  
Safonau'r Gymraeg  
Cyrsiau Rhagflas y Gymraeg  
Cyfarchion Cymraeg  
Hyfforddiant Atal –WRAP

Hyfforddiant Ideoleg Eithafol  
Ymwybyddiaeth i Drosedd Casineb  
Caethwasiaeth Fodern  
Trais ar sail Anrhydedd  
Ymwybyddiaeth o Briodas Dan  
Orfod ac Anffurfio Organau  
Cenhedlu Benywod  
Ymwybyddiaeth o fod yn Ystyriol i  
Dementia

Sesiynau gwybodaeth ar Drefnu Cyfarfodydd Dwyieithog, Asesu Sgiliau iaith ar gyfer Swyddi, Tensiynau Cymunedol, y Broses Ceisio Lloches ac ati.

Caiff gweithwyr cyflogedig eu cyflwyno i'r Dyletswyddau Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg yn ystod y broses Sefydlu Corfforaethol a phroses sefydlu eu maes gwasanaeth lleol a gallant gwblhau cyrsiau e-ddysgu ar borth e-ddysgu'r cyngor.

Bydd rheolwyr gwasanaethau a gweithwyr cyflogedig yn nodi pa sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth da a theg drwy broses Eich Adolygiad pob gweithiwr cyflogedig.

**Safonau'r Gymraeg Perthnasol 129-132**

## 7 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd 2016-2020

Nodau Ilesiant ac Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd	
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	
1	<b>Amrywiaeth yn y gweithle – Ymgysylltu â Gweithwyr Cyflogedig</b> Bydd gweithlu'r Cyngor yn gynrychiadol o'r boblogaeth a wasanaethwn a bydd y gweithlu'n cael cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt
2	<b>Ymgysylltu a chyfranogiad democrataidd</b> Byddwn yn cynnwys pobl wrth ddatblygu gwasanaethau'r Cyngor sy'n effeithio arnynt a bydd penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bobl
3	<b>Gwella Mynediad at Wasanaethau</b> Gall pobl gael at wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt o ran mynediad corfforol ac o ran cyfathrebu ac ati
4	<b>Trechu Tlodi</b> Byddwn yn mynd ati i leihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymysg rhai o'n pobl a chymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn dioddef tlodi
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	
5	<b>Cymunedau Cydlynus a mynd i'r afael â throedd casineb</b> Mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o gymuned Casnewydd ac yn byw eu bywydau heb gamdriniaeth nac aflonyddu.
6	<b>Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</b> Mae pobl sy'n dioddef neu'n dyst i gam-drin domestig yn cael cymorth gan y Cyngor a'i bartneriaid yn eu sefyllfa gyfredol, a thrwy unrhyw newidiadau maent am eu gwneud.
7	<b>Digartrefedd</b> Darparu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n grymuso pobl ddigartref a phobl ar gyrion y gymdeithas heb eu beirniadu fel y gallant gyflawni eu potensial.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	
8	<b>Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg</b> Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd
9	<b>Cydymffurfiaeth Gorfforaethol</b> Arweinyddiaeth strategol, trefniadau llywodraethu, sicrhau safonau uchel a chyson ym mhob rhan o'r cyngor a'i feysydd cyfrifoldeb.



Bydd yr amcanion a'r camau gweithredu canlynol yn cael eu datblygu ymhellach gyda'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol a phartneriaid Cyngor Dinas Casnewydd yn y misoedd ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb

<b>Amcan cydraddoldeb 1 Amrywiaeth yn y Gweithle – Ymgysylltu â Gweithwyr Cyflogedig</b>	
<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>  <b>Bydd gweithlu'r Cyngor yn gynrychiadol o'r boblogaeth a wasanaethwn ac mae'r gweithlu'n cael ei gynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Datblygu Templed Cynllunio'r Gweithlu
<b>Cam gweithredu 2</b>	Creu dangosfwrdd data'r gweithlu i gymharu'r gweithlu â phoblogaeth Casnewydd  Datblygu Strategaeth i fynd i'r afael â gwahaniaethau
<b>Cam gweithredu 3</b>	Nodi sefydliadau partner i weithio gyda nhw ar gynrychioli gwahanol bobl
<b>Cam gweithredu 4</b>	Ymgysylltu â staff am faterion sy'n effeithio arnynt

<b>Amcan cydraddoldeb 2 Ymgysylltu a chyfranogiad democrataidd</b>	
<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>  <b>Byddwn yn cynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau'r Cyngor sy'n effeithio arnynt a bydd penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bobl</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd i gefnogi'r Dadansoddiad o Ymatebion sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
<b>Cam gweithredu 2</b>	Casglu data a chudd-wybodaeth drwy amrywiaeth o ddulliau i gefnogi'r Dadansoddiad Sefyllfa sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
<b>Cam gweithredu 3</b>	Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb ar newidiadau polisi, prosiectau ac ati a'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.
<b>Cam gweithredu 4</b>	Sicrhau Cyngor leuenctid brwdfrydig effeithiol yng Nghasnewydd sydd â mynediad at y bobl sy'n gwneud penderfyniadau

<b>Cam gweithredu 5</b>	Gweithio gyda Fforwm Iaith Casnewydd i ddatblygu strategaeth i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd
-------------------------	--

<b>Amcan cydraddoldeb 3 Gwella mynediad at wasanaethau -</b>	
<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>  <b>Mae pobl yn gallu cael mynediad at holl wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor sydd eu hangen arnynt o ran mynediad corfforol ac o ran cyfathrebu ac ati.</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Cynnal archwiliadau hygrychedd ar adeiladau'r cyngor
<b>Cam gweithredu 2</b>	Datblygu Strategaeth Hygrychedd mewn perthynas ag ysgolion
<b>Cam gweithredu 3</b>	Datblygu a chynnal gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd Saesneg - Cymraeg ar gyfer y cyngor a threfniadau ar gyfer ieithoedd a fformatau eraill
<b>Cam gweithredu 4</b>	Datblygu canllawiau ar safonau deunyddiau hygrych a dwyieithog ar gyfer marchnata, cyhoeddusrwydd a gwybodaeth i gwsmeriaid
<b>Cam gweithredu 5</b>	Monitro lefelau bodlonrwydd/nifer y cwynion ynghylch hygrychedd yn cynnwys corfforol, cyfathrebu a'r Gymraeg
<b>Cam gweithredu 6</b>	Staff rheng flaen yn y ganolfan gyswllt a'r Orsaf Wybodaeth wedi'u hyfforddi ar gyfathrebu hygrych, gwasanaethau cwsmeriaid, ymwybyddiaeth o anabledd, rheoli gwrthdaro ac ati
<b>Cam gweithredu 7</b>	Cynhwysiant Digidol – mae gwefan y Cyngor yn cadw at safon W3 ar lefel AA ac mae'n ddwyieithog

<b>Amcan cydraddoldeb 4 Trechu Tlodi</b>	
<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>  <b>Byddwn yn gweithio i leihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymhlith rhai o'n pobl a chymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl dioddef tlodi</b>  <b>(Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi: atal tlodi; helpu pobl allan o dlodi; camau gweithredu i liniaru effaith tlodi)</b>
<b>Action 1</b>	Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy

	gyflwyno Dechrau'n Deg, gofal plant fforddiadwy o ansawdd da, a chymorth adeg dechrau'r ysgol ac yn ystod cyfnodau pontio addysgol eraill
<b>Cam gweithredu 2</b>	Canolbwyntio ar ddangosyddion cynnar angen fel bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial (cyflawniad plant sy'n gallu cael Prydau Ysgol am Ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, ac ati)
<b>Cam gweithredu 3</b>	Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid fel bod pobl ifanc yn cael cynnig cymorth priodol wrth adael yr ysgol
<b>Cam gweithredu 4</b>	Cyflwyno'r Academi Ddysgu Seiliedig ar Waith, Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf (Prosiect Sgiliau Teulu) i wella sgiliau pobl, dileu rhwystrau i gyflogaeth a chodi dyheadau
<b>Cam gweithredu 5</b>	Gwaith wedi'i dargedu yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig

### **Amcan cydraddoldeb 5** **Cymunedau Cydlynus a mynd i'r afael â throedd casineb**

<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>  <b>Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ddinas ac yn teimlo'n ddiogel.</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Byddwn yn annog ac yn cefnogi mentrau sy'n rhoi cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol yng Nghasnewydd
<b>Cam gweithredu 2</b>	Parhau i gefnogi'r Fforwm Troedd Casineb er mwyn codi ymwybyddiaeth o Droeddau Casineb, cynyddu nifer y troeddau sy'n cael eu hadrodd a darparu ymateb aml-asiantaeth i achosion risg uchel
<b>Cam gweithredu 3</b>	Byddwn yn cydgysylltu dull partneriaeth o adrodd ar fwlio seiliedig ar ragfarn mewn ysgolion, a mynd i'r afael â bwlio o'r fath, ac yn ceisio chwarae rôl ragweithiol wrth herio rhagfarn
<b>Cam gweithredu 4</b>	Byddwn yn annog cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fewnfudo a chynhwysiant ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr gan ganolbwyntio ar brofiadau cyffredin holl drigolion Casnewydd ni waeth beth fo'u statws mudo neu ethnigrwydd

### **Amcan cydraddoldeb 6** **Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>
---------------------------	-----------------------------------

	<b>Mae pobl sy'n dioddef neu'n dyst i gam-drin domestig yn cael cymorth gan y Cyngor a'i bartneriaid yn eu sefyllfa gyfredol, a thrwy unrhyw newidiadau maent am eu gwneud</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Datblygu'r Uned Cam-drin Domestig aml-asiantaeth ymhellach
<b>Cam gweithredu 2</b>	Cyflwyno hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a phrosesau atgyfeirio <ul style="list-style-type: none"> <li>• Priodasau dan orfod / trais er anrhydedd / anffurfio organau cenhedlu benywod</li> <li>• Cam-drin domestig</li> <li>• MARAK (cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth)</li> <li>• DASH (Adnodd cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu)</li> <li>• Deddfwriaeth Gofyn a Gweithredu</li> </ul>
<b>Cam gweithredu 3</b>	Adolygu a datblygu ymhellach y: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cam-drin Domestig ar gyfer Casnewydd,</li> <li>• Cyfeiriadur o wasanaethau cam-drin domestig</li> <li>• System TG Galwadau Cynadledda ar gyfer Cam-drin Domestig</li> </ul>

<b>Amcan cydraddoldeb 7 Digartrefedd</b>	
<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>  <b>Darparu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n grymuso pobl ddigartref a phobl ar gyrion y gymdeithas heb eu beirniadu fel y gallant gyflawni eu potensial</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Gweithredu'r rhaglen grantiau Cefnogi Pobl a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo a chefnogi pobl a allai fod yn agored i niwed a phobl ar gyrion cymdeithas i fyw'n annibynnol yn y gymuned
<b>Cam gweithredu 2</b>	Atal digartrefedd lle bo'n bosibl
<b>Cam gweithredu 3</b>	Meithrin gwydnwch pobl i allu ymdopi â sioc, straen ac ansicrwydd yn eu bywydau
<b>Cam gweithredu 4</b>	Cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau am oes a ffynnu'n annibynnol

<b>Amcan cydraddoldeb 8 Cydydffurfio â Safonau'r Gymraeg</b>	
<b>Amcan a</b>	<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>

<b>chanlyniad</b>	<b>Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg, a rolau a chyfrifoldebau staff, Aelodau a'r cyhoedd
<b>Cam gweithredu 2</b>	Gwneud y defnydd gorau o systemau'r cyngor i hwyluso dewis iaith
<b>Cam gweithredu 3</b>	Ymgysylltu â phartneriaid wrth ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghasnewydd
<b>Cam gweithredu 4</b>	Datblygu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer gweithwyr cyflogedig Cyngor Dinas Casnewydd, a galluogi gweithwyr cyflogedig i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle

<b>Amcan cydraddoldeb 9 Cydymffurfiaeth Gorfforaethol</b>	
<b>Amcan a chanlyniad</b>	<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>  <b>Arweinyddiaeth strategol, trefniadau llywodraethu, sicrhau safonau uchel a chyson ym mhob rhan o'r cyngor a'i feysydd cyfrifoldeb</b>
<b>Cam gweithredu 1</b>	Monitro perfformiad, yn cynnwys bodlonrwydd cwsmeriaid, drwy'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol
<b>Cam gweithredu 2</b>	Adrodd yn flynyddol ar gydraddoldebau a'r Gymraeg i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain, a chyhoeddi adroddiadau perthnasol ar wefan y cyngor
<b>Cam gweithredu 3</b>	Mae gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb ar dudalennau gwe: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</li> <li>• Adroddiadau Blynyddol ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg</li> <li>• Data poblogaeth a chyflogaeth yn ymwneud â chydaddoldebau a'r Gymraeg</li> </ul>
<b>Cam gweithredu 4</b>	Gweithwyr cyflogedig y cyngor yn cael cynnig yr holl hyfforddiant ac arweiniad perthnasol i hwyluso cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Gymraeg
<b>Cam gweithredu 5</b>	Adolygu gweithdrefnau caffael, grantiau a nawdd i brif ffrydio gofynion cydraddoldebau a'r Gymraeg